

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd	Marc Wyn Jones
Dyddiad: Dydd Iau, 24 Medi 2015	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.15	0300 200 6565
	SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru

09.15 – 09.30 – Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod

1 Cynnig i ethol Cadeirydd dros dro

2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09.30)

3 Trafodaeth â Chonsortia Addysg Rhanbarthol – Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)

(09.30 – 10.30)

(Tudalennau 1 – 21)

ERW

CYPE(4)–22–15 – Papur 1

Betsan O'Connor, Rheolwr Gyfarwyddwr – ERW

Eifion Evans, Cyfarwyddwr Strategol: Dysgu a Phartneriaethau / Cyfarwyddwr

Arweiniol Rhanbarthol – ERW

4 Trafodaeth â Chonsortia Addysg Rhanbarthol – Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)

(10.30 – 11.30)

(Tudalennau 22 – 27)

GwE

CYPE(4)–22–15 – Papur 2



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Huw Foster Evans, Rheolwr Gyfarwyddwr – GwE

Ian Budd, Cyfarwyddwr Arweiniol Gogledd Cymru – GwE

5 Papurau i'w nodi

Llythyr gan NSPCC Cymru

(Tudalennau 28 – 29)

CYPE(4)-22-15 – Papur i'w nodi 3

Prifysgolion Cymru Nodyn briffio ar y gyllideb 2016–17 Llywodraeth Cymru

(Tudalennau 30 – 37)

CYPE(3)-22-14 – Papur i'w nodi 4

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.30)

7 Trafod blaenraglen waith y Pwyllgor

(11.30 – 12.00)

(Tudalennau 38 – 41)

CYPE(4)-22-15 – Papur preifat 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

24^{ain} Medi 2015

Cynghrai o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.
Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.



Cyd-destun

Mae'r safonau yn dda o gymharu â rhanbarthau eraill, gyda pherfformiad ar bob dangosydd yn gwella mewn modd cynaliadwy a chyson.

Mae'r perfformiad cyffredinol yn dda am y rhesymau canlynol:

- mae perfformiad lefel ysgol cyffredinol wedi cadw ac rydym wedi adennill y safle uchaf o ran perfformiad rhanbarthol ar gyfer Lefel 2 + sef 60.2 %;
- mae presenoldeb yn parhau i wella, ac yn well na rhanbarthau eraill gyda chynnydd yn para yn yr uwchradd i 94.0% yn 2014/15; cafwyd cynnydd o 1.5 fesul disgybl yn y sector cynradd i 94.9%.

Er bod ein perfformiad yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer Lefel 2 +, yn gyffredinol, mae safonau perfformiad cyffredinol un awdurdod lleol yn parhau yn is na'r disgwyl. Mae meysydd o arfer da a rhagorol mewn nifer o ysgolion a safonau isel mewn mannau eraill. Er y cydnabyddir bod perfformiad ar Lefel 2+ yn ERW yn well nag ydyw mewn rhanbarthau eraill, mae gan bob awdurdod lleol a'r rhan fwyaf o ysgolion welliannau clir i'w gwneud cyn cyrraedd terfyn uchaf. Yn yr un modd mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o berfformio'n dda yn ERW nag mewn rhanbarthau eraill, ond cydnabuwn fod yn rhaid i ni leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad yn sylweddol. Hyd yn oed lle bydd ysgolion yn meincnodi'n dda a lle bydd perfformiad cyffredinol disgyblion yn dda, yn amlach na pheidio bydd perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn isel. Mae amrywiad rhwng ysgolion ac o fewn ysgolion, ac mae ymyriadau wedi'u targedu'n benodol yn dangos gwelliannau penodol eleni, ac mae gwaith ychwanegol ar y gweill eisioes yn 2015-16.

	*2015	2014	2013	2012
GWE		57.1	56.0	53.2
ERW	60.2	58.0	55.6	54.8
CSC		54.1	49.4	47.8
EAS		52.2	49	46.4

(*Data heb ei wirio)

Cyflwyniad

“Cyngyrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gydbwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol. Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.”

Cafodd Consortiwm ERW ei ailsefydlu ar ôl rhyddhau'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion (Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014). Mae'r Model Cenedlaethol yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran consortia rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion. Mae Cabinet pob Awdurdod Lleol priodol o fewn y Rhanbarth wedi mabwysiadu'r Cytundeb Cyfreithiol sydd ar waith ar gyfer gweithredu a llywodraethu ERW.

Mae'r Consortiwm yn cynnwys chwe Awdurdod Lleol; Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys, Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Dinas a Sir Abertawe. Nod ERW yw darparu gwasanaeth gwella ysgolion proffesiynol cyson ac integredig i blant a phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoliadau yn y chwe Awdurdod Lleol.

Caiff ERW ei lywodraethu gan Gyd-bwyllgor â chyfansoddiad cyfreithiol, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys Arweinyddion y chwe Awdurdod Lleol.

Gweledigaeth ERW yw ..

“..sichrau rhwydwaith o ysgolion sy'n perfformio'n uchel yn gyson ar draws y rhanbarth gyda phob ysgol yn dda ac yn cynnig addysgu o safon uchel dan arweinyddiaeth dda, gan olygu bod yr holl ddysgwyr yn cyflawni eu llawn botensial.”

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, byddwn yn meithrin gallu ysgolion drwy gymorth, her ac ymyriadau er mwyn sichrau sefydliadau cryf sy'n hunanwella ac sy'n gwella canlyniadau i ddysgwyr yn barhaus.

Cenhadaeth ERW yw:

“meithrin gallu ysgolion drwy gymorth, her ac ymyriadau er mwyn sichrau sefydliadau cryf sy'n hunanwella ac sy'n gwella canlyniadau i ddysgwyr yn barhaus”

Bydd gwaith ERW yn sichrau **perfformiad effeithiol ym mhob ysgol** yn y rhanbarth drwy:

- **herio** perfformiad mewn ysgolion a'r canlyniadau a gyflawnir gan eu **holl** ddysgwyr **mewn modd cadarn a chyson**
- defnyddio system wahaniaethol o **gymorth proffesiynol i ysgolion** sy'n gymesur i angen ac sy'n cael ei nodi drwy fframwaith asesu a chategoreiddio y cytunir arno'n genedlaethol
- cefnogi'r broses o leoli strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol i ddatblygu **sgiliau llythrennedd a rhifedd a digidol dysgwyr** a gwella **canlyniadau i ddysgwyr o dan anfantais**
- hwyluso a datblygu **cymorth ysgol i ysgol effeithiol** er mwyn gwella perfformiad a chanlyniadau drwy leoli ymarferwyr arweiniol profiadol a llwyddiannus
- **rheoli a lleoli cynghorwyr her hyfforddedig** ar draws y rhanbarth er mwyn herio perfformiad a chyfeirio at gymorth perthnasol a phriodol
- cychwyn **ymyriadau ffurfiol mewn ysgolion nad ydynt yn cyrraedd** y safon ofynnol
- **meithrin gallu a chryfder o fewn ysgolion** er mwyn galluogi system hunanwella o fewn y rhanbarth

Ymateb i argymhellion

- Croesawodd ERW yr adborth llafar defnyddiol iawn gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn yr adolygiad a oedd yn golygu y gallem ymateb yn gyflym ac yn systematig. Nid oedd unrhyw feysydd a oedd yn peri syndod ac roedd ein hunanwerthusiad wedi nodi pob maes datblygu.
- O ganlyniad, roedd gennym lawer o gamau gwella ar waith ac felly yn sgîl ymateb cynnar a chyflym gallem flaenoriaethu, gan gyflymu'r broses wella lle y bo angen. Yn ogystal, gallem **ddefnyddio'r adborth gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru i fireinio a gwella ein gwaith.**
- **Cydnabawn hefyd fod gennym lawer o gryfderau**, megis y rhai ar gyfer cynllunio strategol, craffu ac atebolrwydd yn y tymor canolig. O ganlyniad i hyn gallem adrodd yn effeithiol o fewn strwythur llywodraethu ERW ein bod wedi mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion.
- Mae cyrff arolygu, archwilio ac adolygu (IAR) wedi **monitro a chyflwyno adroddiad yn systematig ar yr argymhellion** drwy ein trefniadau llywodraethu yn y tymor byr. Fodd bynnag,

erbyn hyn mae pob cam gweithredu i ymateb i argymhellion wedi eu hymgorffori yn ein trefniadau cynllunio busnes.

- **Mae ymgorffori camau gweithredu o fewn cynlluniau gwella** yn arfer gorau o fewn trefniadau cynllunio busnes a hunanwerthuso effeithiol. Rydym wedi cwmpasu pob argymhelliad pwysig yn y rhain, a lle y bo angen, wedi eu nodi yn y gofrestr risg
- Mae proses o **amlygu a throsglwyddo cynnydd** wedi arwain at ddatblygu hyder gan sicrhau gwelliannau amlwg. Mae trefniadau ERW ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd wedi sicrhau bod cynnydd yn amlwg ac yn cael ei nodi. Serch hynny, mae'r broses o fonitro cynnydd yn erbyn canfyddiadau'r adolygiad yn heriol oherwydd gwnaed y gwaith maes bron i flwyddyn yn ôl ac erbyn hyn rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn seilwaith ac arfer.
- **Mae adolygu effaith gwelliant ac effaith ein hymatebion i argymhellion** wedi arwain at effaith fesuradwy ar ganlyniadau i ddysgwyr. Mae gwella gwaith monitro a gwerthuso wedi arwain at well cymorth a her i ysgolion sy'n darparu gwerth am arian.

Prif argymhellion

Wrth flaenoriaethu'r gwaith, gwnaethom ganolbwyntio ar saith maes blaenoriaeth gan fod llawer o argymhellion yn cydblethu :

1. *Hunanwerthuso*

Mae hon yn agwedd anodd a sensitif ar y gwaith sy'n anodd ei chyflawni'n berffaith. Rydym yn hyderus ein bod yn adnabod ein hunain yn dda a bod yr ystod o wybodaeth a gasglwyd i lywio ein trefniadau ar gyfer hunanwerthuso yn gywir. Rydym yn hyderus bod ein cylch blynyddol wedi'i lywio'n ddigonol gan werthusiad allanol a gynhaliwyd gan gyrff arolygu, archwilio ac adolygu; a'n gwybodaeth ein hunain h.y. data perfformiad, craffu, system rheoli risg, trefniadau adrodd a monitro. Rydym yn mireinio'r wybodaeth hon yn barhaus ac ni allwn wneud datganiadau ysgubol gan fod y rhanbarth mor amrywiol ac mor fawr yn ddaearyddol. Mae'r cydbwysedd rhwng gwybodaeth weithredol a strategol yn deg. Rydym yn hyderus yn ein gallu i hunanwerthuso er mwyn sicrhau gwelliant a chael gwared ar unrhyw wastraff diangen. Ymhlith ein cryfderau mae ymateb i adborth gan ysgolion ac mae hyn wedi arwain at well canfyddiadau a gwasanaethau.

2. *Craffu ac atebolrwydd democrataidd*

Roedd adborth Swyddfa Archwilio Cymru ar ein gwaith yn galonogol iawn ac rydym wedi atgyfnerthu ein dull gweithredu ymhellach eleni. Y llynedd gwnaethom ddatgrynhai data perfformiad i bob awdurdod lleol, ond eleni bydd pob awdurdod lleol yn cael darlun rhanbarthol llawn. Mae gennym Flaenraglen Waith ranbarthol sefydledig ar gyfer y broses graffu. Mae mesurau diogelu cadarn ar waith i sicrhau proses leol barhaus a diogel o graffu ar waith ranbarthol. Mae Blaenraglen Waith eleni yn cynnwys: data perfformiad a chategoreiddio; Cynllun Busnes ERW; Cynghorwyr Her a'u perfformiad a'u gallu

Caiiff pob argymhelliad ei goladu a'i rannu'n rhanbarthol. Mae pob cadeirydd yn cyfarfod yn rhanbarthol i rannu a chynllunio gan ddefnyddio'r arfer mwyaf effeithiol.

I gloi felly, mae ein gwaith yn ymwneud â 3 thasg allweddol: seilwaith effeithiol ar gyfer craffu ar y rhanbarth; sicrhau ansawdd gweithgarwch her a chraffu; a sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn ymateb i adborth ar graffu ac yn cymryd camau gweithredu yn unol â hynny.

3. *Rheoli risg*

Cydnabuom fod angen datblygu'r maes hwn ac felly mae Tîm Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi arwain ar welliannau mewn prosesau ar ran ERW. Mae coladu cofrestr risg effeithiol a pherthnasol a sicrhau ei bod yn cael ei diweddarau a'i defnyddio ar draws y chwe awdurdod lleol wedi ychwanegu gwerth at ein gwaith ac wedi ein galluogi i rannu a lliniaru risgiau drwy gymryd cyfrifoldeb ar y cyd. Mae'r broses o nodi gwelliant ariannol a gweithredol mewn ysgolion a risg gorfforaethol strategol ar gyfer ERW ac awdurdodau lleol yn gymhleth. Yn flaenorol, roedd y trefniadau adrodd i'r Cyd-bwyllgor a'r Bwrdd Gweithredol yn ddigonol, ond mae trefniadau presennol ar gyfer cynnydd yn seiliedig ar arfer gorau ar waith ac yn gwbl weithredol.

4. *Cynllunio busnes*

Mae Cynllun Busnes ERW ar waith. Mae ffocws clir ar ganlyniadau gyda thri maes blaenoriaeth ac 16 o ffrydiau gwaith. Mae adeiladu ar lwyddiant y llynedd i alinio ffrydiau gwaith a blaenoriaethau yn sicrhau cefnogaeth gan randdeiliaid am eu bod yn gallu 'dychmygu' tasgau y gallant 'feddu arnynt'. Mae chwe Phrif Swyddog Addysg y rhanbarth yn gweithio'n ofalus i gydbblethu ac alinio cynlluniau gweithredol ym mhob awdurdod lleol i ERW. Gellid disgrifio cynllun ERW fel asgwrn cefn i bob un o'r cynlluniau, gan lywio a chyfuno'r camau gweithredu angenrheidiol a'r blaenoriaethau ar draws y rhanbarth. Yr allwedd i bob cynllun partneriaeth yw cydberchenogaeth o ganlyniadau a meini prawf llwyddiant. Caiff hyn ei amlinellu yn y cynllun a'i nodi'n glir.

5. *Gwerth am arian*

Mae gan ERW ganllawiau ar waith i farnu gwerth am arian. Mae'r dyfarniadau yn seiliedig ar drosolwg o ddarbudusrwydd, effeithlonrwydd, gwerth ychwanegol, mantais gydweithrediadol ac effeithiolrwydd. Mae canllawiau, trefniadau monitro ac archwilio ar gyfer yr EIG ar waith. Mae'r berthynas rhwng swyddogion cyllid a hyd yn oed bwrsariaid ysgolion wedi bod yn allweddol i reoli proses drosglwyddo ddefnyddiol iawn i gyfuno grantiau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r broses o ddarparu sicrwydd rhwng awdurdodau lleol o ran archwilio mewnol ac ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi bod yn fwy effeithiol eleni gan fod y strwythurau a'r systemau yn gwbl sefydledig. Mae cyfraddau dirprwyo ERW i ysgolion yn uchel ac yn adlewyrchu blaenoriaeth y rhanbarth i gefnogi gallu a chryfder mewn ysgolion.

6. *Defnydd effeithiol o ddata a gwybodaeth*

Mae gwybodaeth am drefniadau olrhain ein hysgolion a'n disgyblion yn allweddol i lywio ein gwaith ar welliant pellach. Bydd yr agwedd hon yn llywio'r gwaith gwerth am arian ac mae'n rhan annatod o'n gwaith i adeiladu ar allu dysgu digidol i helpu strategaethau gwella ysgolion. Mae hwn yn faes cryfder i'r rhanbarth, ac mae ein gwybodaeth am ddisgyblion yn dda. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y canlyniadau i ddysgyblion a grwpiau o ddisgyblion bregus. Rhagwelwn y byddwn yn datblygu cryfder a gallu drwy waith mwy effeithiol yn y maes hwn.

7. *Cymorth o safon i ysgolion*

Caiff ysgolion gymorth priodol drwy Ysgol Cymorth ERW ac mae hyn yn adlewyrchu'r system gategoreiddio genedlaethol yn llawn. Mae hawl gan ysgolion gael cymorth a chaiff y cymorth hwn ei froceru yn ôl angen gan 'Fwydlen Cymorth' gynhwysfawr o safon uchel.

Mae safon y cymorth i ysgolion yn dibynnu ar ein cynghorwyr. Rydym wedi datblygu gweithlu cadarn dros dro o Gynghorwyr Her. Mae traean ohonynt yn staff awdurdod lleol cyflogedig craidd, mae traean yn arweinwyr ysgol ar secondiad ac mae traean yn ymgynghorol. Mae pob un ohonynt yn bodloni neu'n mynd y tu hwnt i'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cynghorwyr Her ac yn gweithio o

fewn Cod Ymddygiad ERW. Mae datblygiad parhaus a dysgu proffesiynol yn allweddol, gan fod y disgwyliaid ar gynghorwyr yn uchel. Ar hyn o bryd rydym yn targedu cynghorwyr uwchradd yn benodol gyda chyfres o ddsbarthiadau meistr, ac yn mireinio eu gwaith er mwyn lleihau biwrocratiaeth a chael effaith gadarnhaol ar allu'r ysgolion eu hunain i wella .

Ar lefel ranbarthol, mae'r gwaith tuag at ddatblygu system ysgolion hunanwella yn mynd rhagddo. Rydym yn ofalus i reoli disgwyliaid o fewn hinsawdd genedlaethol sy'n newid ac adeiladu proses o drawsnewid systemau drwy alluogi a chefnogi ysgolion i ddod yn ysgolion cadarn sy'n hunanwella. Serch hynny, rhaid i ni hefyd gefnogi ysgolion sy'n tanberfformio gan herio'n effeithiol lle y bo angen. Mae hyn yn gofyn am system lle mae hawl i gymorth o safon uchel a her yn gallu cydfodoli o fewn system hunanwella.

Cefnogi consortia ac awdurdodau lleol i oregyn rhwystrau i welliant

Fel rhanbarth, rydyn yn aml wedi trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, yr ystod o strategaethau a gofynion cymorth sydd eu hangen i sicrhau gwelliant pellach ledled Cymru. Mae newid mewn systemau a datblygiadau cyfredol tuag at system hunanwella yn cael eu cyflymu yn ERW ac fe'u croesewir. Fodd bynnag, gall yr heriau canlynol arwain at rwystredigaethau diangen:

- **Cyfathrebu:** Me'n barhaus i gynnal natur gyfredol a defnyddioldeb dulliau cyfathrebu. Rhaid cydweithredu ar lefel genedlaethol i gyfleu negeseuon cyson a dilys.
- **Disgwyliaid:** Mae'r broses o ymateb i newid yn gadarnhaol ond gall disgwyliaid realistig a darparu adnoddau mewn modd amserol helpu ysgolion, awdurdodau lleol, a chonsortia i baratoi'n well.
- **Dibynadwyedd:** Mae dibynadwyedd barnau proffesiynol yn greiddiol er mwyn datblygu system sy'n hunan wella, a sy'n hyderus yn hyn o beth. Rhaid i farnau athrawon wrth asesu, Ymgynghorwyr Her wrth gategoreiddio ac arolygwyr Estyn fod yn gywir a chyson.
- **Strategaeth:** Mae gosod a chadw at strategaeth cyson a chlr yn genedlaethol yn arf pwysig i arwain y sector. Mae ein cynlluniau i reoli a chreu systemau effeithiol rhanbarthau yn ddibynnol ar arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru.
- **Cynllunio ariannol effeithiol ac ariannu teg:** Croesewir newidiadau diweddar i'r Grant Gwella Ysgolion Addysg (GGA) ond mae angen deall y broses atebolrwydd. Rhaid cael dull cyson a theg o ariannu difreintiedd a chefnogi arferion gorau.
- **Mynd i'r afael â materion anodd:** Mae angen i arweinwyr deall rolau a chyfrifoldebau o fewn y system.

Adroddiad i:

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mis Medi 2015

Rhagair

GwE yw Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru sydd yn gweithio yn gwbl ddwyieithog ochr yn ochr â ac ar ran Awdurdodau Lleol Conwy, Dinbych, Flint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn i ddatblygu ysgolion rhagorol ar hyd a lled y rhanbarth a gwella deilliannau i ddisgyblion drwy sicrhau arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel a dysgu ac addysgu o safon ym mhob dosbarth. Gweledigaeth GwE yw, trwy herio yn bwrpasol a chefnogol a thrwy gynnig cefnogaeth heriol, datblygu cyfundrefn sydd yn hunan-wella ac yn dangos ffydd yn ein hysgolion a'u harweinwyr ar bob lefel i'n tywys ar hyd y daith honno. Ar ei orau, mae cydweithio agos rhwng ysgolion yn broses hynod heriol ac yn ein harwain at sylweddoli efallai nad ydy'r hyn yr oeddem ni yn ei ystyried yn arfer ragorol yn rhagorol wedi'r cyfan. Gwaith ysgolion yw gwella eu hunain er lles y dysgwyr yn eu gofal; tasg GwE yw sicrhau bod hynny'n digwydd.

Llywodraethu

Mae'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod rhwng chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru yn diffinio trefniadau llywodraethu Cyd-Bwyllgor GwE, gan gynnwys ei Gylch Gorchwyl a'i Bwerau Datganoledig. Gan hynny, mae hefyd yn adnabod pa faterion a gedwir yn benodol i'r awdurdodau partner unigol benderfynu arnynt. Dyma gylch gorchwyl a phwerau datganoledig y Cyd-Bwyllgor:

- i. hyrwyddo cydweithio i gyflenwi'r Gwasanaeth drwy:
- ii. hwyluso gweithio partneriaethol adeiladol;
- iii. cysylltu â chyrrff allweddol sydd â diddordeb a rhanddeiliaid pan fo hynny'n briodol; a
- iv. cyflawni gweithgareddau eraill tebyg sydd wedi'u cynllunio neu'n arwain at gyflenwi'r Gwasanaeth yn llwyddiannus; a
- v. goruchwyllo gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner, fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes Blynyddol cytûn;
- vi. cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
- vii. cymeradwyo'r cynllun busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
- viii. monitro a rheoli'r peryglon sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
- ix. cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am gyllid ychwanegol gan Gynghorau unigol;
- x. cymeradwyo strwythur staffio y Gwasanaeth;
- xi. penodi Prif Swyddog i'r Gwasanaeth;
- xii. penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog; ac,
- xiii. ble mae angen, pennu neu wneud trefniadau ar gyfer pennu apelïadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.

Cedwir y materion canlynol yn benodol i Gabinetau unigol benderfynu arnynt:

- i. cymeradwyo trefniadau llywodraethu partneriaeth rhyng-Gyngor;
- ii. cynyddu cyllideb cyfraniadau'r Cynghorau;
- iii. caffael y gwiriadau archwilio a sicrwydd angenrheidiol; a
- iv. diweddu'r Bartneriaeth.

Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw datblygu cyfundrefn addysg o safon fyd-eang ble gall pob disgybl yn y rhanbarth elwa ar addysgu sy'n gyson safonol ym mhob dosbarth a ble mae pob ysgol, waeth beth eu lleoliad daearyddol, yn cael ei harwain gan arweinwyr rhagorol. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, bydd GwE yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fynd ati i gefnogi, herio a monitro perfformiad yn gadarn ac yn effeithiol a sicrhau bod y fframwaith categoreiddio yn cael ei ddefnyddio'n gyson i dargedu cynhaliaeth yn ôl yr angen.

Mae'r cynllun gwella cenedlaethol "Cymwys am Oes" yn arwydd o ymrwymiad i'r syniad o gyfundrefn addysg sy'n gwella ei hunan ac yn crisialu'r weledigaeth o arweinwyr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd, gan gymryd yr awenau o ran eu dyfodol a'u datblygiad. Tra bod rhaid i'r rhai o fewn ein hysgolion fod yn gyfrifol am godi safonau yn eu sefydliadau eu hunain, mae GwE yn ceisio magu meddylfryd o gyd-ddathlu llwyddiannau cyfundrefn gyfan - **"Rydw i am i bob ysgol fod yn ysgol dda, ond rydw i am i'm hysgol i fod 'chydig bach yn well."**

Deilliannau â Blaenoriaeth

Mae'r chwe awdurdod lleol cyfansoddol wedi cytuno ar y deilliannau â blaenoriaeth yn y ddogfen hon. Maent yn adlewyrchu ymrwymiad y rhanbarth i roi sylw i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Byddant yn llywio gwaith GwE ac yn dangos sut fyddwn ni'n gweithredu disgwyliadau'r Model Cenedlaethol a gofynion Cytundeb Partneriaeth Gogledd Cymru. Adlewyrchant hefyd ganfyddiadau adroddiadau thematig SAC/Estyn a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015. Mae pwyslais amlwg yn ein dull gweithredu a'n methodoleg ar ddatblygu system hunan wella ble bydd Ymgynghorwyr Her, Swyddogion ALL, arweinwyr ac ysgolion yn mynd ati'n ddyfal i gefnogi, herio a rhannu'r arferion gorau. Rhoddir prosesau sicrhau ansawdd trylwyr ar waith i sicrhau bod y ddarpariaeth yn effeithiol o fewn ac ar draws y tri hwb daearyddol.

Cyflawni'r Deilliannau â Blaenoriaeth

Bydd GwE yn gwella deilliannau dysgwyr drwy:

- ddarparu cymorth a her effeithiol i ysgolion [drwy ddefnyddio Ymgynghorwyr Her, Penaethiaid/aelodau UDRh ar secondiad, Partneriaid Cynorthwyol ac ymarferwyr arbenigol]
- hwyluso a hybu partneriaeth effeithiol rhwng ysgol i ysgol
- darparu rhaglen hyfforddiant i hybu a datblygu arweinyddiaeth, dysgu ac addysgu effeithiol gyda phwyslais neilltuoel ar sgiliau llythrennedd a rhifedd ac anghenion dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig
- cydweithio a chefnogi'r Awdurdodau Lleol i gychwyn ymyrraeth ffurfiol mewn ysgolion ble nad yw perfformiad yn gyson â'r safonau gofynnol.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd GwE yn gweithio tuag at gael set o nodau addysgol ac hefyd yn gwella ei strwythurau trefniadaethol mewnol er mwyn bod mewn gwell sefyllfa i gynnig cefnogaeth gynaliadwy i ysgolion y rhanbarth.

Ymateb i argymhellion Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru

Trosolwg

- Mae ymateb GwE i argymhellion y ddau adroddiad wedi'i gynnwys yng Nghynllun Busnes 3 blynedd GwE, ac fe'u nodir yn flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyntaf.
- Cydnabu Estyn a SAC bod y ddau adroddiad yn cyflwyno darlun cynnar o ddatblygiad y trefniadau i sicrhau gwelliannau mewn ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol a bod consortia rhanbarthol wedi ymateb yn dda i adborth a gafwyd a bod camau eisoes yn cael eu cymryd i ymdrin â rhai agweddau ar y canfyddiadau.

Ymateb i argymhellion penodol

A1 (Estyn): Gwella trefniadau rheoli perfformiad

A3 (SAC): Datblygu mwy o berthnasau cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion

A5 (SAC): Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol

- Mae GwE wedi llunio cynllun busnes newydd i gynnwys cerrig milltir tair blynedd ble nodir camau gweithredu, deilliannau a chostau manwl ar gyfer pob blaenoriaeth.
- Bydd y blaenoriaethau yn y Cynllun Busnes yn bwydo i gofrestr risg ffurfiol gyda'r UDRh, y Bwrdd Rheoli, y Cydbwyllgor a'r Bwrdd Ymgynghorol yn monitro yn eu tro.
- Cytunwyd ar ddull strategol newydd efo Penaethiaid a fydd yn arwain at fwy o annibyniaeth a gweithgareddau cydweithredol i'n hysgolion gorau.
- Bydd GwE yn parhau i hogi prosesau hunan arfarnu i sicrhau y caiff data perfformiad ei ddefnyddio yn fwy effeithiol.
- Mae GwE wrthi'n datblygu system rheoli data gadarnach fel y gellir rheoli a dadansoddi data yn fwy effeithiol ar draws ysgolion.
- Mae GwE yn hyrwyddo systemau tracio mwy effeithiol ar lefel ranbarthol a lleol.
- Caiff targedau a data cynnydd pob ysgol eu monitro'n drylwyr dros y flwyddyn ysgol. Data lefel macro yn y lle cyntaf. Bydd Ymgynghorwyr Her unigol yn gyfarwydd â thracio a data ar lefel disgybl.
- Bydd perthynas agos rhwng yr holl amcanion Rheoli Perfformiad â blaenoriaethau'r Cynllun Busnes.
- Mae strwythurau rheoli llinell ac atebolrwydd wedi cael eu hail alinio.
- Rhoddir amcanion i bob YH sy'n cyd-fynd â thargedau gwella meintiol ysgolion cyswllt.

- Mae strwythurau a chanllawiau eglur ar waith ar gyfer rheoli perfformiad staff, a datblygwyd cylch hyfforddiant unigryw i gefnogi gwelliant a chysondeb.
- Mae Ymgynghorwyr Her eisoes yn gweithio fesul parau/cysgodi.
- Cytunwyd ar weithdrefnau medrusrwydd a darparwyd hyfforddiant i'r UDRh.

A2 (Estyn): Sicrhau cysondeb gwell yn ansawdd arfarniadau Ymgynghorwyr Her o ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu ac arweinyddiaeth

- Mae GwE wrthi'n datblygu strwythurau cadarn i sicrhau cysondeb.
- Archwilir adroddiadau Ymgynghorwyr Her drwy drefniadau rheoli llinell fesul hwb a chyfarfodydd timau rhanbarthol/UDRh.
- Rhennir arferion da o fewn ac ar draws hybiau.
- Mae pob adroddiad ar gael i'r Ymgynghorwyr Her, a nodir arferion rhagorol.
- Mae rhaglen hyfforddi a datblygu ar waith i bob Ymgynghorydd Her.
- Categorioidio: Mae GwE yn darparu rhaglen hyfforddiant i sicrhau cysondeb â'r disgwyliadau cenedlaethol a chysondeb gweithredu ar draws hybiau.
- Disgwyliadau bod profiad perthnasol o reolaeth ar lefel uchel yn allweddol ym mhob penodiad a wneir.
- Adnabod 3 maes allweddol fel sail i rôl portffolio arweiniol Ymgynghorwyr Her [Dysgu ac Addysgu; Arweinyddiaeth; Asesu a Thracio].

A3 (Estyn): Datblygu strategaethau cliriach i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ddeilliannau addysg a sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn gydlynus i'r perwyl hwn

- Adnabuwyd arweinydd strategol a drafftwyd strategaeth ranbarthol (rhannwyd copi â LIC).
- Adnabuwyd blaenoriaethau a chamau gweithredu allweddol.
- Datblygwyd cynllun rhanbarthol i gefnogi PMG, a gymeradwywyd gan LIC, ac a weithredir gan swyddog arweiniol.
- Llwyddwyd i adnabod Ysgolion Cyd-Arweiniol (YCA) i leihau effaith tloidi yn y lle cyntaf.
- Trefnwyd Cynhadledd Genedlaethol gan GwE ar Effaith Amddifadedd ar gyfer 9 Tachwedd. Gwahodddwyd y Gweinidog.
- Hyfforddwyd Ymgynghorwyr Her ar strategaethau llwyddiannus i roi sylw i effaith amddifadedd ar safonau.
- Mae mynd i'r afael ag amddifadedd yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd yr UDRh.

A4 (Estyn): Gwella ansawdd ac ystod y cymorth ar gyfer ysgolion (strategaethau ysgol i ysgol)

A4 (SAC): Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r unigolion mwyaf dawnus

- Mae strategaeth drosfwaol gytûn ar waith.
- Hwylusir rhaglenni traws sector a thraws awdurdod [gan gynnwys cysylltiadau ag AU a busnesau lleol] a'u rhannu mewn cynhadledd ranbarthol.
- Cytunwyd ar Strategaeth Ysgolion Cyd-Arweiniol [i'w gyflwyno Haf 2015].
- Gweithio gyda LIC i adnabod Ysgolion Arloesi Dyfodol Llwyddiannus ac ysgolion Arloesi y Fargen Newydd.
- Bydd model diwygiedig GwE ar gyfer cefnogi/herio ysgolion yn hybu datblygiad system hunan wella ysgol ymhellach.
- Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth ar waith.

A4 (Estyn): Gwella ansawdd ac ystod y cymorth ar gyfer ysgolion (pynciau nad ydynt yn rhai craidd)

- Cyflwynir rhaglen ddatblygu GwE i wella gwaith arwain dysgu ac addysgu, a dylid gweld effaith mewn pynciau craidd ac anghraidd.
- Datblygir cydweithio ysgol i ysgol drwy'r rhaglenni hyn.
- Bydd y model ysgolion cyd-arweiniol yn gynsail i ddatblygu cefnogaeth i bynciau anghraidd.
- Bydd datblygu trefn o ysgolion Gwyrdd a Melyn sy'n cyd gefnogi a chyd herio ei gilydd yn helpu i gynnal y gwaith sydd ei angen ar draws y pynciau anghraidd.
- Mae GwE yn datblygu mynegai o arferion effeithiol ar draws y rhanbarth, a fydd yn cynnwys pob pwnc maes o law. Yn y pendraw, bydd GwE yn gosod trefn sicrhau ansawdd ac yn cynnwys ysgolion yn y mynegai.

A5 (Estyn): Cynnwys awdurdodau esgobaethol yn effeithiol wrth gynllunio ac arfarnu gwasanaethau rhanbarthol yn strategol

- Cydnabu adroddiad Estyn mai GwE yw'r unig ranbarth sydd eisoes yn mynd ati i gynnwys yr awdurdodau esgobaethol.
- Wrth sefydlu GwE, roedd cynrychiolwyr esgobaethol o Wrecsam, Llanelwy a Bangor yn rhanddeiliaid allweddol ac fe ymgynghorwyd â nhw ar wahanol adegau.
- Mae Strwythur Llywodraethu GwE yn cynnwys cynrychiolydd esgobaethol fel aelod cyfetholedig y Cydbwyllgor [yn gwasanaethu am ddwy flynedd ar y mwyaf].

A6 (Estyn): Dylai awdurdodau lleol gefnogi eu consortiwm rhanbarthol i ddatblygu cynlluniau busnes tymor canolig a sicrhau bod yr holl gynlluniau'n ystyried anghenion eu hysgolion lleol

- Bydd Cynllun Busnes GwE yn cynnwys cerrig milltir am y tair blynedd nesaf a bydd cyfeiriad amlwg at y gwaith fydd ei angen ym mhob ALI (yn ychwanegol at unrhyw ddarpariaeth graidd gan GwE).

A7 (Estyn): Dylai awdurdodau lleol ddatblygu perthnasoedd gweithio ffurfiol rhwng pwyllgorau craffu yn eu consortiwm er mwyn craffu ar waith ac effaith eu consortiwm rhanbarthol.

A1 (SAC): Egluro natur a gweithrediad y consortia

A5 (SAC): Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol

- Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol GwE sydd bellach yn weithredol.
- Mae angen hogi ymhellach rôl y Cydbwyllgor sy'n cynnwys cynrychiolaeth weithredol o bob un o'r awdurdodau partner.
- Cytuno ar raglen archwilio dreigl i'r ALI/Cydbwyllgor.
- Sicrhau her gadarn i uwch staff GwE mewn cyfarfodydd archwilio.
- Sicrhau bod y Grŵp Defnyddwyr yn rhoi cefnogaeth a her i uwch staff GwE.
- Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru bellach wedi crisialu mai gwasanaeth a ddarperir ar y cyd yw GwE ac nid gwasanaeth a gomisiynir.

Edrycha GwE a chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru ymlaen at weithredu argymhellion y ddau adroddiad yn llawn. Rydym yn ymwybodol bod arolygiad manwl pellach gan Estyn yn ôl fframwaith sydd eto i'w gyhoeddi, yn debygol yn nhymor y Gwanwyn neu'r Haf yn 2016. Nid oes dwywaith y bydd yr arolygiad hwn yn edrych ar gynnydd GwE tuag at gyflawni argymhellion y ddau adroddiad y cyfeirir atynt yn y papur hwn.

Huw Foster Evans

